# Trosolwg o'r Wers: Torri'r Cylch

| | | |
|---|---|---|
| **Llinyn** | Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned | Hyd y Wers:<br>Amrywiol hyd at 60 munud, trwy gytundeb staff y ganolfan, yn ddibynnol ar p'un a gaiff y wers ei chyflwyno'n gyfan, neu mewn rhannau ac ar sut y mae'r disgyblion yn ymateb |
| **Cyfnod Allweddol** | CA3 | |
| **Enw'r wers** | Torri'r Cylch | |

## NOD

- Gwybod am effeithiau niweidiol bwlio ac am ddulliau pendant o ddelio ag e.

## FFRAMWAITH ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL 2008

- I ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. S (DM)
- I wrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol. S (DC)
- I uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill. S (GGE)
- I ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill. Y (DW)
- I ddatblygu agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill.
- I ddeall y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd. Y (DMY)

## LLYTHRENNEDD AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae'r wers hon yn cynnwys yr agweddau canlynol o'r fframwaith rhifedd/llythrennedd:

- Siarad Ll(Ll)s
- Gwrando Ll(Li)g
- Cydweithio a thrafod Ll(Ll)c&th
- Strategaethau darllen Li(D)d&d
- Darllen a deall – Ll(D)d&d
- Iaith – Ll(Y)i

## AMCANION Y WERS

- Bod yn ymwybodol o'r hyn y mae disgyblion yn ystyried sy'n weithredoedd cywir ac anghywir a deall y materion sydd ynghlwm â hyn.
- Bod ag empathi gyda, a bod yn sensitif i, brofiadau a theimladau pobl eraill.
- Bod yn ymwybodol o'r strategaethau perthnasol ar gyfer datrys y broblem.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

bwlio, rheolaidd, gwahanol, niweidiol, empathi, pendant

## ADNODDAU

- Geiriau Allweddol A4
- Poster A3 – diffiniad o fwlio.
- Casgliad o ffotograffau o enghreifftiau o wahanol fathau o fwlio.
- Casgliad o ffotograffau portread ar gyfer y gweithgaredd Argraffiadau Gyntaf.
- Taflenni cwestiwn ac ateb.
- Pennau siart fflip/bwrdd du, coch a gwyrdd.
- Clip fideo/DVD am fwlio (dewisol).
- Casgliad o Senarios Bwrdd Stori stribed ar ffurf cartŵn/ffotograffau.
- Llyfr o 'post-its' a phennau

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Sicrhau fod y cysylltiad â'r wers flaenorol yn cael ei esbonio.
- Cytuno ar y Rheolau Aur.
- Amlinellu'n glir cytundeb y dosbarth ynglŷn â chyfrinachedd.
- Trafod y diffiniad o fwlio.
- Ystyried pam fod pobl yn cael eu bwlio ; pam fod pobl yn bwlio eraill.

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Arddangoswch yr amcanion dysgu a chyflwynwch y geiriau allweddol.
- Gweithgaredd 1: Argraffiadau Cyntaf.
- Nodi gwahanol fathau o fwlio.
- Gweithgaredd 2: Archwilio emosiynau negyddol.
- Gweithgaredd 3: Archwilio emosiynau positif.
- Cysylltiadau rhwng mathau o fwlio a throseddu.
- Defnydd dewisol o fideo/DVD priodol fel symbyliad.
- Gweithgaredd 4: Senarios Bwrdd Stori.
- Trafodaeth ddosbarth – beth i'w wneud, wrth bwy i ddweud.

### ADOLYGU

- Canlyniadau Dysgu.

### GWEITHGAREDDAU DILYNOL ATHRAWON

Gweler gwefan www.schoolbeat.org am weithgareddau dilynol ac adnoddau athrawon.